

9<sup>fed</sup> Chwefror 2021

Annwyl Breswilydd / Perchennog Busnes,

### Ynglŷn â: Cynllun Gwella Ffordd yr Eglwys, Cil-y-coed - Cam 1

Mae Griffiths yn falch o fod wedi'i benodi'n Brif Contractwr gan Gyngor Sir Fynwy i adeiladu gwahanol rannau o'r cynllun uchod.

Disgwylir i'n gwaith gychwyn yr wythnos sy'n dechrau o'r 15<sup>fed</sup> Chwefror 2021 a bydd yn cymryd tua 8 wythnos i'w gwblhau. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar wahanol rannau o Heol yr Eglwys, gan gynnwys y cyffyrdd i Gos y Groes, Ysgol Gynradd Castle Park ac wrth y fynedfa i Gastell a Pharc Gwledig Cil-y-coed. Byddwn hefyd yn dychwelyd i Gyffordd y Groes er mwyn cwblhau ein gwaith yn union y tu allan i Caldicot Printing a'r Tecawê Tsieineaidd 'New River' a gafodd eu hoedi oherwydd cylfat Dŵr Cymru a oedd wedi dymchwel.

#### Bydd nodweddion allweddol ein gwaith yn cynnwys:

- Clirio'r Safle
- Cloddio cerbyffyrdd a throedffyrdd presennol
- Ail-adeiladu'r cerbyffyrdd a'r troedffyrdd
- Gwaith ail-wynebu
- Gosod cyrbau ac ymylon
- Gosod draeniad
- Gosod Dodrefn Stryd
- Tirlunio

Er mwyn darparu ar gyfer y gwaith hwn, bydd angen i ni osod goleuadau traffig dros dro ar wahanol adegau ac yn dibynnu ar ein lleoliad. Gofynnwn i chi ystyried ein gwaith wrth gynllunio unrhyw deithiau, oherwydd efallai y byddwch yn profi oedi byr. Ein horiau gwaith fydd 08.00 tan 17.00 (dydd Llun i ddydd Gwener). Nodwch, efallai y bydd yn ofynnol i ni weithio rhai penwythnosau hefyd. Os felly, ein horiau gwaith fydd 08.00 – 13.00. Gall yr oriau hyn newid ac mae'r holl waith yn ddibynnol ar y tywydd. Bydd mynediad i eiddo a busnesau yn yr ardal gyfagos yn cael ei gynnal yn ogystal â mynediad i gerddwyr ar hyd Heol yr Eglwys - ond gall ein manau gwaith gyfyngu ar barcio mewn rhai ardaloedd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon mewn perthynas â'n gwaith, cysylltwch â Georgie Davies, Swyddog Cyswllt Cyhoeddus y cynllun. Gellir cysylltu â Georgie, rhwng 08:30 a 17:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, dros y ffôn ar \*0330 041 2183. Os ydych yn galw y tu allan i'r oriau hyn, neu os nad yw Georgie yn gallu ateb, gadewch neges. Fel arall, gallwch e-bostio Georgie - [georgie.davies@alungriffiths.co.uk](mailto:georgie.davies@alungriffiths.co.uk) neu gysylltu trwy ein tudalen we gymunedol <https://community.alungriffiths.co.uk/church-road-improvements-phase-1-caldicot/>.

Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Alun Griffiths (Contractwyr) Cyf

*\*Codir tâl ar y rhif ffôn hwn ar gyfraddau galwadau cenedlaethol, a chânt eu cynnwys mewn cynlluniau munudau cynhwysol o linellau tir a ffonau symudol*